



Plaid Werdd
Green Party

**YN SEFYLL DROS
YR HYN SY'N
BWYSIG**

Y WARANT WERDD

EIN DEG ADDEWID ALLWEDDOL

**ECONOMI I BAWB / DIOGELU EIN HAMGYLCHEDD
/ AELODAETH YR UE / EIN HADDEWID I BOBL IFANC / BYD MWY DIOGEL
/ DEMOCRATIAETH DINASYDDION / GIG GWIRIONEDDOL GYHOEDDUS
/ ADDYSG I BAWB / CARTREFI DIOGEL A FFORDDIADWY
/ SYSTEM DRAFNIDIAETH I'R BOBL**

Rydym yn Blaid Werdd Cymru a Lloegr. Pan gynhelir etholiadau San Steffan, oherwydd nad oes gan Loegr gynulliad datganoledig ei hun, mae etholiadau San Steffan yn gymysgedd o faterion sy'n ymwneud â'r DU a materion sy'n ymwneud â Lloegr yn unig. Mae'r addewidion cyntaf ar gyfer Cymru a Lloegr.

ECONOMI I BAWB

Byddwn yn creu miloedd o swyddi diogel drwy ailadeiladu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd ein cynlluniau ar gyfer rhwydwaith o fanciau cymunedol yn sicrhau bod cyfoeth yn cyrraedd ein cymunedau yn hytrach na phentyrru mewn cyfrifon banc corfforaethol.

Byddwn yn gorffen y sgandal o dlodi gweithiol drwy gyflwyno'n raddol wythnos waith o 4 diwrnod, yn dileu contractau oriau sero ecsbloetiol, yn cynnal hawliau undebau llafur, ac yn sicrhau bod pawb yn derbyn cyflog byw.

Byddwn yn cymryd camau tuag at gyflwyno incwm sylfaenol cyffredinol, gan gynnwys cynllun peilot a noddir gan y llywodraeth, fel modd i gynyddu diogelwch i bawb a lleihau'r trap tlodi. A byddwn yn hyrwyddo undebau credyd i ryddhau pobl rhag dyled anghyfiawn a beichus.



DIOGELU EIN HAMGYLCHEDD



Byddwn yn blaenoriaethu camau brys i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan amnewid ffracio, pŵer glo a chymorthdaliadau am danwyddau ffosil, gyda buddsoddiad mewn technoleg ynni adnewyddadwy a'r swyddi niferus sy'n gysylltiedig. Byddwn yn buddsoddi mewn cartrefi cynnes i bawb, gyda rhaglen insiwleiddio ledled y wlad, ac mewn Strategaeth Ddiwydiannol Werdd i adeiladu economïau cadarn yn genedlaethol ac yn lleol.

Bydd Deddf Diogelu'r Amgylchedd newydd yn diogelu a gwella hawl pawb i amgylchedd diogel fel caiff ei warantu ar hyn o bryd drwy ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

Byddwn yn cyflwyno Deddf Aer Glân newydd, gan ehangu'r rhwydwaith parthau aer glân gorfodol ac amddiffyn y Llain Las, Parciau Cenedlaethol, SoDdGA ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

AELODAETH YR UE

Mynnwn hawl ddemocrataidd y bobl i bleidleisio ar ba bynnag fargen caiff ei thrafod ar gyfer ymadawiad Prydain o'r UE. Dylai hyn gael ei ddarparu drwy refferendwm cadarnhau sy'n cynnwys opsiwn i wrthod y fargen ac aros yn yr UE.

Byddwn yn ymladd am fargen Brexit i gynnwys cadw'r rhyddid i symud, gan gynnwys hawliau dinasyddion yr UE i aros yn y DU ac i bobl ifanc astudio, gweithio, byw a theithio yn yr UE drwy gynlluniau megis Erasmus, ac i gadw'r amddiffyniadau amgylcheddol a'r egwyddorion a'r rheoliadau sy'n diogelu iechyd pobl, lles anifeiliaid a hawliau gweithwyr.



EIN HADDEWID I BOBL IFANC



Byddwn yn buddsoddi mewn cyfleoedd i bobl ifanc, gan ddechrau gyda sicrwydd o'u hawl i astudio, gweithio, byw a theithio yn yr UE. Rydym am i bob person ifanc medru cael mynediad i addysg uwch ac addysg bellach heb y baich o ddyled, a byddwn yn dileu ffioedd dysgu ac yn adfer grantiau byw.

Byddem yn dileu ar fandiau cyflog sy'n gysylltiedig ag oedran ac yn codi lefel yr isafswm cyflog cenedlaethol i lefelau cyflog byw i bawb.

Mae angen llais ar bobl ifanc a byddwn yn rhoi un iddynt, drwy ostwng yr oed pleidleisio i 16 a chyflwyno addysg wleidyddol a dinasyddiaeth weithredol ar gyfer bob person ifanc.

Anelwn at gyflwyno trafndiaeth gyhoeddus leol di-dâl i bob person ifanc a myfyriwr.

BYD MWY DIOGEL

Byddwn yn canslo olynedd system arfau niwclear Trident gan arbed o leiaf £100 biliwn dros y 30 mlynedd nesaf.

Awn ar drywydd polisi tramor moesegol, a system fewnfudo a lloches drugarog a thosturiol sy'n cymryd cyfrifoldeb am rôl Prydain yn achosi'r llif o ffoaduriaid ledled y byd.



DEMOCRATIAETH DINASYDDION

Byddwn yn gweithio i wneud Prydain yn wirioneddol ddemocrataidd drwy gyflwyno cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau seneddol, gan ymestyn pleidlais i bobl 16 oed, yn diwygio Tŷ'r Arglwyddi fel ail siambr etholedig, ac yn grymuso cymunedau lleol i alw eu Haelod Seneddol yn ôl.

Byddwn yn tynhau'r rheolau ar berchnogaeth y cyfryngau, fel nid oes unrhyw unigolyn neu gwmni yn berchen ar fwy na 20% o farchnad y cyfryngau, gan ddiogelu yn erbyn unrhyw un yn meddu ar ormod o ddylanwad neu yn tanseilio democratiaeth. Byddwn yn gweithio i greu cymdeithas fwy cyfartal. Byddwn yn rhoi'r hawl i gyplau rhyw gymysg gael bartneriaeth sifil a chroesawu LGBTIQa a ffoaduriaid. Byddwn yn cyflwyno

rhannu swydd ar gyfer Aelodau Seneddol i gynyddu cynrychiolaeth anabl yn arbennig, yn cau'r bwlc cyflog rhwng y rhywiau ac yn gweithio tuag at Senedd

Y WARANT WERDD / DUDALEN 7

50/50. Byddwn yn diwygio stopio a chwilio a Prevent ac yn eu hamnewid gyda phlisma sy'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol.




Mae'r addewidion nesaf yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion yn Lloegr a chydabyddwn a pharchwn fod y pwerau hyn yn cael eu datganoli i Gymru. Mae angen i Gymru cael adnoddau ariannol teg a phwerau mwy datganoledig, fel y gall pobl Cymru gael y gwasanaethau cyhoeddus sy'n ateb eu hanghenion.

GIG GWIRIONEDDOL GYHOEDDUS

Byddwn yn cyflwyno Deddf Adfer y GIG i ddadwneud preifateiddio fel bod holl wasanaethau iechyd a deintyddol bob amser yn eiddo i'r cyhoedd ac yn cael eu darparu am ddim ar y pwynt mynediad.

Byddwn yn cau bwlc gwariant y GIG er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at feddyg teulu, y gall ysbytai lleihau amseroedd aros, a bod gwariant ar ofal iechyd meddwl yn unol â gwariant ar les corfforol.



Y WARANT WERDD / DUDALEN 8

ADDYSG I BAWB

Byddwn yn dod ag Academiâu ac Ysgolion Rhydd i mewn i system yr awdurdod lleol, yn dileu TASau ac yn lleihau maint dosbarthiadau, yn ogystal â chynyddu ac amddiffyn gwariant mewn termau real ar ein hysgolion fel eu bod yn cael eu hariannu a'u staffio'n briodol.

Byddwn yn dileu ffioedd dysgu prifysgol, yn ariannu grantiau cyflawn i fyfyrwyr, ac yn gwneud mwy o fuddsoddiad cyhoeddus mewn addysg bellach ac uwch.



CARTREFI DIOGEL A FFORDDIADWY

Byddwn yn cyflwyno rhent byw i bawb drwy reolaethau rhent, yn darparu tenantiaethau mwy diogel ar gyfer rhentwyr preifat, ac yn cyflwyno trwyddedu gorfodol ar gyfer pob landlord.

Byddwn yn lansio rhaglen fawr i adeiladu cartrefi fforddiadwy gan gynnwys hanner miliwn o gartrefi newydd ar rent cymdeithasol dros bum mlynedd a dechrau camau i ail-ddefnyddio cartrefi gwag.

Byddwn yn ailsefydlu budd-daliadau tai ar gyfer pobl o dan 21 oed ac yn rhoi terfyn ar y dreth ystafell wely sy'n greulon ac yn annheg.



SYSTEM DRAFNIDIAETH I'R BOBL



Byddwn yn dychwelyd y rheilffyrdd i berchnogaeth gyhoeddus, a buddsoddi mewn cysylltiadau rheilffyrdd rhanbarthol, yn enwedig yn Ne Orllewin a Gogledd Lloegr, yn hytrach na gwastraffu arian ar HS2 a'r rhaglen prif ffyrdd cenedlaethol.

Byddwn yn mynd i'r afael ag effaith trafnidiaeth ar y newid yn yr hinsawdd ac iechyd y cyhoedd drwy ganslo ehangu meysydd awyr a gorffen cymorthdaliadau tanwydd i gwmnïoedd hedfan, ynghyd â chynyddu cymhellion i gael cerbydau diesel oddi ar y ffyrdd. Byddwn yn buddsoddi mewn gwasanaethau bws fforddiadwy, dibynadwy sydd wedi eu rhedeg yn gyhoeddus, ac mewn gwell llwybrau cerdded a beicio, a chyfleusterau megis parcio beiciau a storfeydd diogel i feiciau ar y strydoedd mewn ardaloedd preswyl. Anelwn at wneud trafnidiaeth gyhoeddus leol yn ddi-dâl ar gyfer pobl ifanc, myfyrwyr a phobl a chanddynt anabledau.

er lles pawb
Plaid Werdd



Green Party
for the common good



facebook.com/TheGreenParty



[@WalesGreenParty](https://twitter.com/WalesGreenParty)



wales.greenparty.org.uk